**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 3 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Tachwedd 2020 |

---

## PWNC

Eitem 4:MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU
YSGOL ABERSOCH

---

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd na ddylid addasu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet a wnaethpwyd ar y 15 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaena mabwysiadu hyn fel penderfyniad terfynol.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet ar y 15 Medi 2020 benderfynu caniatáu i'r Adran Addysg i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

Yn dilyn cyhoeddi y penderfyniad hwn fe'i alwyd i mewn i i'w graffu gan Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi oherwydd pryderon ynglŷn a chynnal proses ymgynghori o fewn cyfyngiadau COVID-19. Yn unol a paragraff 7.25 o Reolau Sefydlog Craffu penderfynodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020 gyfeiro y mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail ystyried gan amlygu y materion roeddynt am i'r Cabinet roi sylw iddynt.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 3 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Tachwedd 2020 |

## PWNC

Eitem 6:ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud Adroddiad Blynyddol ac i nodi gwybodaeth cyflogaeth pob blwyddyn yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Gan mai dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2016-20 roedd y cynnwys yn asesiad o'r gwaith dros y pedair blynedd ac yn adnabod y berthynas gyda'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym Mawrth 2020.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 3 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Tachwedd 2020 |

**PWNC**

Eitem 7:COD YMDDYGIAD STAFF

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd y Cod Ymddygiad Staff ar ran y Cyngor fel cyflogwr.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r cod ymddygiad yn dod a sawl agwedd o amodau gwaith staff ar ei gilydd, yn rhoi arweiniad cyffredinol ar beth yw'r ymddygiadau sydd yn cefnogi ac yn gyrru'r diwylliant gwaith newydd sydd yn cael ei sefydlu o fewn y Cyngor.

Mae mabwysiadu'r Cod yn galluogi'r Cyngor fel cyflogwr i

- Roi arweiniad ar yr ymddygiadau sydd yn ddisgwyliedig o staff wrth i ni newid ein diwylliant o weithio
- Cynnig arweiniad i reolwyr wrth recriwtio i swyddi, trwy ddisgrifio'r math o ymddygiadau sydd yn bwysig i Gyngor Gwynedd
- Cynorthwyo rheolwyr a staff i gael sgyrsiau gwerthuso, ac i ddatblygu unigolion.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 3 Tachwedd 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 18 Tachwedd 2020 |

## PWNC

Eitem 8:PENODI TRI SWYDDOG YMGYSYLLTU CYMUNEDOL I GYNORTHWYO GYDA'R GWAITH SYDD YN DEILLIO O'R PANDEMIG

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i danysgrifennu'r gost o gyflogi 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Adran Amgylchedd am gyfnod dros dro, hyd ar 31 Mawrth 2022, gan alluogi'r Pennaeth Adran Amgylchedd i recriwtio cyn gynted ag y bo modd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen apwyntio 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ymateb i'r Pandemig. Bydd y Swyddogion yn cynghori ac ymgysylltu gyda chymunedau a busnesau yng Ngwynedd.

Fel rhan o'r swyddi bydd angen sefydlu cynllun hyfforddiant ar gyfer y Swyddogion a all gyfrannu tuag at roi gwydnwch i Wasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i'r dyfodol.

Bydd angen tanysgrifennu cost hyd at £113,220 o falansau'r Cyngor, ond disgwilir gellid hawlio o leiaf £71,000 ohono o gronfa caledi Covid-19 Llywodraeth Cymru, tra bydd yr Adrannau Amgylchedd a Chyllid yn ceisio hawlio'r holl wariant perthnasol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.